# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 11eg o Ebrill 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

**Presennol:** Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Christoph Fischer
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Owen James, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Robert Jones.

**Cof 1 / Ebrill / 18 Datganiadau o Fuddiant.** Dim.

**Cof 2 / Ebrill / 18 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu**

E/37911 Newid defnydd adeilad i ddefnydd dosbarthiadau B1 a B8 ym Mhencrug, Heol Caerfyrddin.
**Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â'u bod yn bodloni'r holl reoliadau adeiladu.**

**Cof 3 / Ebrill / 18 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio**
Mae Cyngor Sir Gâr wedi cyhoeddi'r penderfyniadau canlynol:-
E/36563 RHODDWYD
E/36741 RHODDWYD
E/36508 RHODDWYD
E/36526 RHODDWYD
E/36422 RHODDWYD

**Cof 4 / Ebrill / 18 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio**

1. Graham Noakes, yn ateb i ymholiad y Cyngor ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu p'un ai bod yn rhaid i ddatblygwyr eiddo i ddarparu mannau parcio yng Nghanol y Dref. Rhoddodd Mr Noakes fanylion am y gweithdrefnau a ddilynir gan yr awdurdod wrth ddod i benderfyniad am bob cais.
2. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod y Clerc yn ysgrifennu at Swyddog Gorfodaeth Cynllunio CSG, ynglŷn â phenderfyniadau cynllunio a adroddir i'r adran hon heb dystiolaeth bod y gwaith yn cael ei wneud fel y'u cyfarwyddwyd, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish.

**Cof 5 / Ebrill / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol**
Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Adroddodd Mr Davies ei fod wedi derbyn adroddiad gan David Rice, ar y gwaith coed sy'n ofynnol ym Mharc

Penlan. Cynigodd y Cyng. Christoph Fischer fod yr adroddiad hwn yn cael ei argymell i'r pwyllgor cyllid i'w dalu, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins.
Rhoddwyd caniatâd i Mr Davies i gadw thermostat gwresogi Neuadd y Sir ar dymheredd o 5 gradd.

**Cof 6 / Ebrill / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd**
Llythyr gan Gymdeithas Ddinesig Llandeilo, yn ymwneud â chyflwr llwybr troed 69/1. Gofynnwyd i'r Clerc i flaenyrru'r llythyr i Swyddogion Hawliau Tramwy CSG, i gael eu sylwadau.

**Cof 7 / Ebrill /18 Gohebiaeth**

1. J.Williams, Cetma, ynglŷn â rhwydweithiau gwledig. Gofynnwyd i'r Clerc i flaenyrru'r ohebiaeth i grŵp Stiwdios Agored Dyffryn Tywi.
2. Steven Glasson, Working Link Secure, ynglŷn â phrosiectau gwneud iawn â'r gymuned. Byddai'r Cyngor yn ystyried prosiectau addas i'w cyflawni.
3. Newidiadau yng Nghwmni Datblygu HOWL. Byddai'r Clerc yn ateb yn gofyn am wybodaeth bellach.
4. D.A.Jones, ynglŷn â'r Gwasanaeth Sul y Cofio Blynyddol. Byddai'r Clerc yn ateb i ddweud mai Cymdeithas y Lleng Brydeinig Frenhinol fyddai'n penderfynu p'un ai bydd baner Cymru'n cael ei chario yn yr orymdaith.
5. Denise Radcliffe, ynglŷn â chinio trosglwyddo Tenovus. Byddai'r Clerc yn ateb i ddweud y bydd y Dirprwy Faer Etholedig yn mynychu gyda'r Cyng. Colin Jenkins.

**Cof 8 / Ebrill / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58yh.